English text on pages 3 – 4

Canllawiau Cymhwyster Grantiau Strategol i'r Celfyddydau Cyngor Gwynedd

1. AMCAN Y GRANT

Mae Cyngor Gwynedd yn barod i ystyried rhoi grantiau i fudiadau, cyrff a sefydliadau addas er mwyn:

Cefnogi pobl Gwynedd i gael mynediad at, mwynhau a phrofi'r celfyddydau – a hynny er lles unigolion, cymdeithas, yr economi a chymuned."

2. PWY GAIFF YMGEISIO?

2.1 Ystyrir rhoi grantiau i:

- Sefydliadau nad ydynt yn gwneud elw gyda statws cyfreithiol a chyfansoddiadol
- Elusennau cofrestredig
- Cyrff cyhoeddus
- Cwmnïau gwarantedig nad ydynt yn dosbarthu elw i'w haelodau
- Mudiadau / cwmnïau gyda strwythur rheoli clir a sustemau rheolaeth ariannol clir
- Mudiadau eraill priodol, ar yr amod fod gan y cyrff hyn amcanion sydd yn cwmpasu'r maes celfyddydol
- Mudiadau / cwmnïau sy'n rhedeg canolfannau celfyddydol o fewn Gwynedd neu sy'n darparu gweithgareddau celfyddydol rheolaidd ar hyd y flwyddyn yn y sir
- Mudiadau / cwmnïau sy'n cyfrannu'n sylweddol at y blaenoriaethau a adnabyddir yng Nghynllun Celfyddydau Gwynedd
- Prosiectau partneriaeth a arweinir gan bartner arweiniol
- Sefydliadau / mudiadau sy'n aelodau gweithredol o Gwynedd Greadigol

2.2 Fel egwyddor gyffredinol, bydd grantiau'n cael eu dyrannu er mwyn diogelu'r ddarpariaeth gelfyddydol (neu ychwanegu ati) o fewn ffiniau'r sir, neu mewn lleoliadau neu ffurf y gall trigolion y sir fedru manteisio ar y ddarpariaeth. Bydd y Cyngor yn derbyn ceisiadau am weithgaredd 'prosiect' neu i gefnogi gwaith 'craidd' mudiad. Os yn cyflwyno cais am waith 'craidd' bydd angen adnabod pa weithgareddau fydd yn cael eu cefnogi trwy'r cais hwn.

2.3 Lle mae gweithgaredd, sefydliad neu fudiad yn darparu cyfleoedd ac adnoddau celfyddydol i drigolion siroedd eraill yn ogystal â Gwynedd, disgwylir y bydd yr ymgeisydd yn sicrhau cyfran deg o'r arian a geisir o ffynonellau yn y siroedd hynny. Nid yw'r ffaith fod prif safle neu swyddfa corff yng Ngwynedd yn golygu y bydd Cyngor Gwynedd yn cyfrannu'r cwbl o'r nawdd cyhoeddus os yw'r corff dan sylw yn darparu gwasanaethau dros ardal ehangach. Dylid edrych am drefniadau neu gytundebau partneriaeth ar gyfer noddi.

2.4 Ystyrir fod y canlynol yn briodol ar gyfer derbyn nawdd:

- Prosiectau dros gyfnod o 2 flynedd (Blynyddoedd ariannol Ebrill 2020 - Mawrth 2021 ac Ebrill 2021-Mawrth 2022* - *yn amodol ar gadarnhad cyllideb)
- Prosiectau sy'n denu arian cyfatebol tuag at gost y prosiect.
- Prosiectau sy'n cyd-fynd â'r meini prawf a'r drefn sgorio.

2.5 **Uchafswm o £15,000 fydd ar gael i unrhyw ymgeisydd.**
Wrth ddyrannu grantiau bydd yn rhaid i'r Cyngor ystyried cyfanswm y gyllideb fydd ar gael yn y gronfa, y gystadleuaeth am adnoddau, ansawdd y gweithgaredd a chyd-destun lefel y cyfraniad cyllidol sydd wedi ei dderbyn gan y sefydliad o'r Grantiau Strategol i'r Celfyddydau yn y gorffennol.

3. PWY NA CHAIFF YMGEISIO?
Ni ystyrir ceisiadau yn arferol oddi wrth:

- Gyrff a chwmnïau masnachol (sydd yn anelu i ddosbarthu elw i'w haelodau)
- Unigolion
- Sefydliadau / cyrff sydd yn bwriadu gwneud elw o'r digwyddiad at achos da
- Eisteddfodau

- Grantiau bach – **'**Grantiau Strategol' yw'r rhain - dylid cyfeirio ceisiadau llai at ffynhonellau eraill Cist Gwynedd neu'r Gronfa Celfyddydau Cymunedol.
- Gyrff heb gynllun busnes ar gyfer eu sefydliad neu heb dystiolaeth i ddangos hyfywdra a chynaladwyedd y sefydliad a threfniadau rheoli cyllid
- Gyrff nad ydynt yn aelodau gweithredol o Gwynedd Greadigol.

Eligibility Guidelines of the Strategic Grants for the Arts from Gwynedd Council

1. GRANT OBJECTIVE

Gwynedd Council is willing to consider awarding grants to suitable organisations, bodies and establishments in order to:

Support the people of Gwynedd to access, enjoy and experience the arts – for the benefit of individuals, society, the economy and community".

2. WHO CAN APPLY?

2.1 Consideration will be given to award grants to:

- Non-profit making establishments with a legal and constitutional status
- Registered charities
- Public bodies
- Companies limited by guarantee who do not distribute profit to their members
- Organisations / companies with a clear management structure and clear financial management systems
- Other appropriate organisations, on condition that these bodies have objectives which encompass the arts field
- Organisations / companies which run arts companies in Gwynedd or who provide regular arts activities throughout the year in the county
- Organisations / companies which contribute substantially to the priorities identified in the Gwynedd Arts Plan
- Partnership projects led by a lead partner
- Establishments / organisations which are active members of Creative Gwynedd.

2.2 As a general principle, grants will be awarded in order to safeguard the arts provision (or add to it) within the county, or in locations or in a way in which the county's residents could benefit from the provision. The Council will accept applications for 'project' based activities or applications to support 'core' work of organisations. If an application is to support 'core work' there is a requirement to identify the key activities that will be supported by this application.

2.3 Where an activity, establishment or organisation provides arts opportunities and resources to residents of other counties as well as Gwynedd, the applicant will be expected to secure a fair proportion of the money applied for from sources in those counties. The fact that the main site or office of a body is in Gwynedd will not mean that Gwynedd Council will contribute all the public funding if the body in question provides services in a wider area. Partnership arrangements or agreements for funding should be sought.

2.4 It is considered that the following is appropriate for receiving funding:

- Projects over a period of two years (April 2020 – March 2021 and April 2021 – March 2022* financial years – *subject to confirmation of funding)
- Projects which receive match funding towards the project cost.
- Projects which comply with the criteria and the scoring system.

2.5 The maximum amount available for each applicant is £15,000.
When allocating grants the Council will need to consider the financial amount available in the fund, the competition for resources, the standard of the activity and the context in which the insitution received a level of grant previously from the Strategic Grants for the Arts

3. WHO CAN NOT APPLY?

As a rule, applications from the following will not be considered:

- Commercial bodies and companies (which aim to distribute profit to their members)
- Individuals
- Establishments / bodies which intend to make a profit from the event towards a good cause
- *Eisteddfodau*

- Small grants – these are 'Strategic Grants' – smaller applications should be referred to other Cist Gwynedd funds or the Community Arts Fund.
- Bodies which do not have a business plan for their establishment or which do not have evidence to show the viability and sustainability of the establishment and financial management arrangements.
- Bodies which are not active members of Creative Gwynedd.